



Diweddariad ar Ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg

Rhagfyr 2024

Dyfodol Iach Maesteg

Drwy gydol diwedd mis Medi, Hydref a Thachwedd 2024, buom yn ymgysylltu'n weithredol â Llywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a phartneriaid ehangach i lywio ein gwaith ymhellach tuag at ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg yn ganolfan iechyd a lles integredig.

I'ch atgoffa, mae canolfan iechyd a lles integredig yn cynnwys ystod o wasanaethau clinigol a gofal eraill, gan gynnwys Canolfan Gofal Brys, yn ogystal â darparu gwasanaethau awdurdodau lleol a thrydydd sector ar y safle, fel gwasanaethau iechyd meddwl.

Yn gadarnhaol, ac yn bwysig, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod cyllid ar gyfer y gwaith ailddatblygu arfaethedig yn yr arfaeth ariannol.

Eglurodd Llywodraeth Cymru hefyd rai agweddau ar sut y byddai ein dyluniad terfynol, manylebau gwasanaeth ac achosion busnes cyffredinol yn cael eu hasesu yn erbyn y Gronfa Integreiddio ac Ail-gydbwyso Cyfalaf (IRCF), sef pot y cynlluniau ariannol ar gyfer iechyd a lles yng Nghymru.

Ar hyn o bryd rydym yn asesu gwaith sydd wedi cael ei gwblhau hyd yma yn erbyn y diweddariadau hyn gan Lywodraeth Cymru ar fanylebau cyllid, dylunio a gwasanaethau.

Ochr yn ochr â'r gweithgareddau hyn, ac fel rhan o'r broses datblygu achosion busnes arferol, mae angen i ni hefyd ddangos i Lywodraeth Cymru ein bod wedi ystyried (os ma dim ond dileu oherwydd eu hanaddasrwydd) ystod eang o opsiynau wrth ystyried y ffordd orau o ddarparu canolbwynt iechyd a lles modern sy'n diwallu'r anghenion iechyd sylweddol yng Nghwm Llynfi a'r cymunedau cyfagos. Fel pob cynllun ledled Cymru, mae angen i ni ddangos gwerth am arian.

Mae'r gwaith hwn yn mynd ymlaen wrth i ni ddatblygu'r ddau achos busnes cyntaf o dri y mae'n rhaid i ni eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Rydym yn dal i fwriadu cynnal digwyddiad cyhoeddus arall y flwyddyn nesaf i roi cyfle i drafod ymhellach ac i roi adborth ar eich barn, gan gynnwys ar unrhyw ddyluniad arfaethedig o'r safle. Rydym yn cymryd eich barn o ddifrif, ac yn ymgorffori'r rhain yn ein ffordd o feddwl lle y gallwn.

Byddwn yn cysylltu'n agos â chynrychiolwyr lleol a grwpiau cymunedol ar y dyddiad gorau ar gyfer ein digwyddiad nesaf i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn mynychu ac i sicrhau ei fod yn cael cyhoeddusrwydd mor eang â phosibl.

Er ein bod yn gweithio tuag at yr ailddatblygiad, rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau ar gyfer y presennol yn Ysbyty Cymunedol Maesteg. Byddwn yn moderneiddio ein Hystafell Pelydr-X ym Maesteg gyda'r offer modern diweddaraf yn dilyn cymeradwyaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Bydd darpariaeth pelydr-X bresennol ym Maesteg yn cau ar 24 Rhagfyr 2024 er mwyn caniatáu i'r gwaith uwchraddio ddigwydd a'r nod yw cwblhau o fewn 3 mis. Byddwn yn dal i ddarparu gwasanaeth galw i mewn yn Ysbyty Tywysoges Cymru ar gyfer pob claf sydd angen pelydr-X confensiynol. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y datblygiad cadarnhaol hwn.

Dweud eich dweud

Gyda'ch help chi, mae gennym restr helaeth o grwpiau cymunedol y gallwn ni ymgysylltu â nhw - diolch! Rhowch wybod os oes grwpiau a sefydliadau eraill y dylem fod yn ymgysylltu â nhw fel rhan o ddigwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol fel y gallwn eu cynnwys yn y sgwrs.

Rhagor o wybodaeth

Os bydd gennych chi unrhyw ymholiadau, neu geisiadau am ragor o wybodaeth cyn ein diweddariad nesaf, mae croeso i chi gysylltu:

- Dale Stolzenberg, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Gweithredol - Dale.Stolzenberg@wales.nhs.uk
- Natasha Weeks, Pennaeth Ymgysylltu ac Ymwneud - Natasha.weeks2@wales.nhs.uk

Dyddiad y briff nesaf – Mawrth 2025

Diolch am eich adborth a'ch cefnogaeth barhaus wrth i ni ddatblygu ein cynllun ymgysylltu cymunedol ar gyfer Ysbyty Cymunedol Maesteg.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.



#HealthyFuturesMaesteg